*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 3273 (Cy.311)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Caerdydd a Bro Morgannwg (Llanfihangel-ynys-Afan a Grangetown) 2002

*Wedi'i wneud - - 6 Rhagfyr 2002*

*Yn dod i rym yn unol ag Erthygl 1(2)*

Mae Comisiwn Ffiniau Llwyodraeth Leol i Gymru wedi cyflwyno adroddiad dyddiedig Ionawr 2002 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adrannau 54(1), 58(1) a 73 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**) ar ei adolygiad ar y ffin rhwng Dinas a Sir Caerdydd a Cyngor Bwrdeistref Bro Morgannwg yn ardal Ffordd Ddolen Grangetown ynghyd â'r cynigion y mae wedi eu llunio amdani;

a chan bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi penderfynu rhoi effaith i'r cynigion hyn gydag addasiadau;

a bod mwy na chwe wythnos wedi mynd heibio ers i'r cynigion hynny gael eu gwneud;

yn awr mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac a freiniwyd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**) yn gwneud y Gorchymyn canlynol.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Caerdydd a Bro Morganwg (Llanfihangel-ynys-Afan a Grangetown) 2002.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2003, sef y diwrnod penodedig at ddibenion y Rheoliadau, ond at ddibenion pob achos sy'n arwain at etholiad neu'n ymwneud ag etholiad sydd i'w gynnal ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff ei wneud.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

Ystyr "Bro Morgannwg" ("*Vale of Glamorgan*") yw Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg;

ystyr "Caerdydd" ("*Cardiff*") yw Dinas a Sir Caerdydd;

(**1**) 1972 (p.70)
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.199/672).

ystyr "y map ffiniau " ("*the boundary map*") yw'r map a gafodd ei baratoi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i farcio "Map Gorchymyn Caerdydd a Bro Morganwg (Llanfihangel-ynys-Afan a Grangetown) 2002" ac a adneuwyd yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau;

ystyr "y Rheoliadau" ("*the Regulations*") yw Rheoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976 (fel y'i diwygiwyd)(**3**).

**Newidiadau i Ardaloedd Cymunedau**

**3.** Bydd y rhan o Fro Morgannwg sydd yng Nghymuned Llanfihangel-ynys-Afan ac a ddangosir â llinellau du ar y map ffiniau yn cael ei gwahanu oddi wrth y gymuned honno a bydd yn ffurfio rhan o gymuned Grangetown yng Nghaerdydd.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

*E. Hart*
Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

6 Rhagfyr 2002

(**3**) O.S. 1976/246, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol (Diwygio) 1978 (O.S 1978/1247).

Map Gorchymyn Caerdydd a Bro Morgannwg (Llanfihangel-ynys-Afan a Grangetown) 2002




---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn, a wnaed yn unol ag adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn rhoi effaith i gynigion gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru. Effaith y cynigion hynny fydd bod yr ardal (a ddangosir â llinellau du ar y map ffiniau y cyfeirir ato yn Erthygl 2 o'r Gorchymyn) yn cael ei throsglwyddo o gymuned Llanfihangel-ynys-Afan ym Mwrdeistref Sirol Bro Morgannwg i gymuned Grangetown yn Ninas a Sir Caerdydd ar ôl i'r Gorchymyn hwn ddod i rym ac o ganlyniad bydd y ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg a Dinas a Sir Caerdydd yn dilyn canol Afon Elái.

Cafodd printiau o'r map ffiniau eu hadneuo a gellir eu harchwilio yn ystod oriau swyddfa arferol yn Swyddfeydd Dinesig Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yn Holton Road, y Bari, Bro Morgannwg, a swyddfeydd Cyngor Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Glanfa Iwerydd, Caerdydd a swyddfeydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd (Yr Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol).

Mae Rheoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976 (fel y'u diwygiwyd) y cyfeirir atynt yn Erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn cynnwys darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol ac atodol ynghylch effaith gorchmynion megis y gorchymyn hwn a'u gweithredu.